EUR 01-03(p4)

Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL

| | |
|---|---|
| Date | 30 Ionawr 2003 |
| Amser | 14.00 |
| Lleoliad | Ystafelloedd Pwyllgora 2 a 3 |
| Teitl: | Datganiad Brwsel |

Diben

1. Gofynnwyd i'r Pwyllgor fynegi barn ar Ddatganiad Brwsel a wnaed yng Nghynhadledd (Llywyddion) Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop (CALRE). Mae copi llawn o'r Datganiad yn yr Atodiad.

Crynodeb/Argymhellion

2. Datganiad Brwsel oedd un o ganlyniadau chweched cynhadledd CALRE a gynhaliwyd ym Mrwsel ar 28-29 Hydref 2002. Mae'n disgrifio safbwynt CALRE ar rôl y rhanbarthau yn yr UE â phwerau deddfu, mewn perthynas â'r Confensiwn ar Ddyfodol Ewrop.

3. Dyma brif bwyntiau'r datganiad:

- Cadarnhau Datganiad Madeira a wnaed ar 30 Hydref 2001, ar gryfhau rôl y rhanbarthau yn yr UE, gan gynnwys yr hawl i fynd at Lys Cyfiawnder Ewrop, a chydnabod statws arbennig y rhanbarthau sydd â phwerau deddfu.
- Cymeradwyo'r penderfyniadau yng Nghynhadledd y Rhanbarthau â Phwerau Deddfu a gynhaliwyd yn Liège ar 15 Tachwedd 2001, i gryfhau rôl Pwyllgor y Rhanbarthau ac i integreiddio seneddau cenedlaethol a rhanbarthol yn well yn y polisi Ewropeaidd.
- Addewid i gydweithio â Phwyllgor y Rhanbarthau a chymryd rhan yn y drafodaeth ynghylch y Confensiwn ar Ddyfodol Ewrop.
- Dymuniad i sefydlu protocol ar gyfer sicrhau bod seneddau'r rhanbarthau sydd â phwerau deddfu yn cydweithio â Senedd Ewrop.
- Sefydlu gweithgor CALRE i ystyried amryw faterion gan gynnwys ffyrdd o ledaenu gwybodaeth am Gonfensiwn Ewrop i'r cynulliadau rhanbarthol, datblygu cyfraniadau CALRE i'r drafodaeth am y Confensiwn, a chryfhau rôl y seneddau rhanbarthol yn yr UE.

4. Yn fras, mae'r Datganiad ffurfiol yn disgrifio:

- bod angen i'r Cytundeb Cyfansoddiadol, fel un o egwyddorion sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd, gydnabod y rhanbarthau;
- bod angen gwarant yn y Confensiwn i ddiogelu hunan-reolaeth ranbarthol;
- yr angen am sybsidiariti a phennu chyfrifoldebau clir, a rhoi terfynau pendant gyfrifoldebau'r UE. Bydd angen gwarant o hyn.
- yr angen am warant o hawl y rhanbarthau â phwerau deddfu i droi at y Llys Cyfiawnder;

- ei bod yn bwysig i'r seneddau rhanbarthol gydweithio â Senedd Ewrop a'r seneddau cenedlaethol;
- yr angen i adolygu rôl Pwyllgor y Rhanbarthau a'r ffordd y mae'r seneddau rhanbarthol yn cymryd rhan ynddo, gyda golwg ar gryfhau ei bwer a'i ddylanwad;
- yr angen i gyfrannu at sefydlu system ranbarthol agored a democrataidd yn y gwledydd sydd ar fin dod yn aelodau.

5. Cafodd y Datganiad ei gymeradwyo gan aelodau CALRE a oedd yn bresennol yn ystod ail ddiwrnod y gynhadledd ym Mrwsel.  Nid oedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban na Chynulliad Gogledd Iwerddon yn bresennol.

6. Gofynnwyd i'r Pwyllgor fynegi barn ar y Datganiad, a bydd y sylwadau yn cael eu rhoi i CALRE.

Y Cefndir

7. Sefydlwyd CALRE ym 1997 yn Oviedo, Sbaen.  Cynhaliwyd cynadleddau blynyddol wedi hynny yn Salzburg ym 1998, yn Fflorens ym 1999, yn Santiago de Compostela yn 2000 ac ym Madeira yn 2001.

8. CALRE yw cynhadledd cadeiryddion seneddau'r gwladwriaethau ffederal yn Ewrop sydd â phwerau deddfu. Nid yw'r cadeiryddion sy'n aelodau o CALRE yn benaethiaid ar seneddau cenedlaethol, ond yn hytrach yn benaethiaid ar senedd talaith neu ranbarth. Rhanbarthau'r Undeb Ewropeaidd yn unig a gaiff fod yn aelodau o CALRE.

9. Caiff rhanbarthau o 8 gwlad eu cynrychioli, sef mwy na 200 miliwn o bobl.   Maent yn cynnwys:
- seneddau cymunedau hunan-ymreolus Sbaen;
- cynghorau rhanbarthol yr Eidal;
- cynulliadau rhanbarthau a chymunedau Gwlad Belg;
- seneddau Länder Awstria a'r Almaen;
- senedd hunan-ymreolus Åland (y Ffindir);
- cynulliadau rhanbarthol yr Azores a Madeira (Portiwgal); a
- Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

Gweithredu

10. Gofynnwyd i'r Pwyllgor fynegi barn ar gynnwys y Datganiad. Bydd y Llywydd yn rhoi'r sylwadau i CALRE.

Claire Bennett
YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGORAU